

Pensaernïaeth

Briff Aseiniad

Prosiect yr Haf

Cod y Modiwl

Teitl y Modiwl

Prosiect Cyn-
Cyrraedd

Aseiniad Prosiect yr Haf

Blwyddyn
Academaidd

Semester

2023/24

Cyn-semester/tymor un

E-bost Arweinydd y Prosiect

fsanna@cardiffmet.ac.uk

Manylion Aseu

Teitl y prosiect	Tal.	Pwysoliad
Archwilio Cymeriad Fy Nhref enedigol	Dd/B	Dd/B

Cyd-destun: Archwilio Cymeriad Fy Nhref enedigol: Tynnwch lun a Brasluniwch Le gyda Chymeriad a Graddfa

Croeso i fyd cyffrous pensaernïaeth! Cyn i chi ddechrau eich astudiaethau, mae'n bwysig dechrau hogi eich sgiliau a datblygu eich llygad pensaernïol. I wneud hyn, rydyn ni wedi creu tasg bensaernïol y gallwch chi ei chwblhau yn eich tref enedigol.

Nod y dasg hon yw dysgu'r camau cyntaf o ddadansoddi lle yn ôl persbectif pensaernïol, a dehongli'r nodweddion allweddol ar gyfer deall y broses o'i greu.

Briff:

Cyfarwyddiadau:

- Dewiswch le yn eich tref enedigol rydych chi'n gweld yn ddiddorol. Gallai hwn fod yn barc, adeilad, stryd, neu'n unrhyw ofod arall sy'n dal eich llygad.
- Ewch am dro o amgylch yr ardal a chymerwch o leiaf 10 llun o'r lle o wahanol onglau a safbwyntiau. Gwnewch yn siŵr eich bod yn dal cymeriad a graddfa'r lle. Rhowch sylw i fanylion fel gweadau, lliwiau, deunyddiau a phatrymau.
- Crewch fraslun(iau) neu luniad(iau) o'r lle. Gall hwn fod yn fraslun cyflym neu'n luniad manylach. Ceisiwch ddal hanfod y lle a'i gymeriad unigryw, defnyddiwch ddeunyddiau lluniadu fel pensiliau, beiros, marcwyr neu baent.
- Myfyriwch ar gymeriad yr ardal y gwnaethoch ei harchwilio. Beth sy'n gwneud yr ardal hon yn unigryw? Beth yw rhai o nodweddion cyffredin yr adeiladau a'r gofodau? Sut maen nhw'n cyfrannu at gymeriad cyffredinol y lle?
- Ysgrifennwch baragraff byr yn disgrifio'r lle a'ch argraffiadau ohono. Defnyddiwch dermau pensaernïol fel "lle", "cymeriad", a "graddfa" i ddisgrifio'r gofod.

Bydd gofyn i chi rannu eich ffotograffau, braslun(iau), a disgrifiad gyda'ch cyd-fyfyrwyr yn ystod yr wythnos groeso ar ffurf cyflwyniad PowerPoint (*hyd; 3 munud | dim mwy na 5 sleid | gcofiwch ddod â ffon côf USB sy'n cynnwys y ffeil ar eich diwrnod cyntaf*).

Pethau i'w cyflawni:

Rhaid i'ch cyflwyniad prosiect gynnwys y canlynol:

1. O leiaf 10 ffotograff o'ch dewis le o wahanol onglau a safbwyntiau. Gwnewch yn siŵr eich bod yn dal cymeriad a maint y lle.
2. Paragraff byr yn disgrifio'r lle a'ch argraffiadau ohono. Defnyddiwch dermau pensaernïol fel "lle", "cymeriad", a "maint" i ddisgrifio'r gofod
3. braslun(iau) neu luniad(au) o'r lle – yn eich cyfrwng dewisol
4. ffon côf gyda chyflwyniad yn casglu'r wybodaeth uchod (PDF neu Powerpoint yn ddelfrydol)

A pheidiwch ag anghofio cynnwys y canlynol:

Cyflwyniad

- Eich enw:
- Teitl eich cwrs:
- Teitl a Dyddiad y Prosiect: Prosiect yr Haf 2023
- **Dewch â'r prosiect gyda chi ar gyfer dechrau'r Wythnos Groeso ddydd Llun 18 Medi**

Os oes angen unrhyw gymorth neu gyngor arnoch ar sut i gwblhau'r dasg hon, anfonwch e-bost at ein tîm gweinyddol ysgol yn nodi enw'r cwrs yr ydych ar fin

ymuno ag ef a'r cwestiynau yr hoffech eu gofyn i'r cyfeiriad e-bost canlynol:

csadadmin@cardiffmet.ac.uk

Egluro termau academiaidd neu dechnegol:

Cysyniadau Pensaernïaeth:

Lle: Mae lle yn cyfeirio at rinweddau a nodweddion unigryw gofod. Mae'n cynnwys agweddau ffisegol a diwylliannol megis daearyddiaeth, hinsawdd, hanes, a chyd-destun cymdeithasol.

Cymeriad: Mae cymeriad yn cyfeirio at nodweddion a rhinweddau unigryw gofod sy'n ei wneud yn unigryw. Mae hyn yn cynnwys elfennau megis pensaernïaeth, tirwedd a diwylliant.

Graddfa: Mae graddfa yn cyfeirio at y berthynas rhwng maint gwrthrych neu ofod a maint y corff dynol. Gall hefyd gyfeirio at gyfran y gwahanol elfennau o fewn gofod.

Drwy gwblhau'r dasg hon, byddwch yn dechrau datblygu eich llygad pensaernïol a dysgu arsylwi a gwerthfawrogi rhinweddau gwahanol ofodau. Pob lwc!

Nodiadau:

CARDIFF
SCHOOL *of* ART & DESIGN